CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Dylan Wyn Rees** **Ward: Canolbarth Môn**
**Grŵp: Plaid Cymru – the Party of Wales**

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Mae wedi bod yn fraint i mi gael fy ethol fel Cynghorydd Sir yn yr etholiad diwethaf ac mae'n rôl yr wyf yn hollol ymrwymedig iddi.

| **Rhwng Mai 2013 a Mawrth 2014, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | *** Ffigyrau Presenoldeb (darparwyd gan CSYM)** |
|---|---|
| Cyngor | 13 (100%) |
| Panel Rhiant Corfforaethol | 2 (66%) |
| Gwasanaethau Democrataidd | 3 (75%) |
| Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 9 (100%) |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) (Cadeirydd) | 3 (100%) |
| * Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu 2 cyfarfod).

Rwyf hefyd yn aelod o Fanc Bwyd Gwledig Ynys Môn.

**Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Yn ogystal ag eistedd ar y pwyllgorau uchod byddaf hefyd yn rheolaidd yn mynychu nifer o gyfarfodydd eraill yn fy ward, yn cynnwys:

Cyfarfodydd Llywodraethwyr Ysgol - Rwyf yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol y Bont ac Ysgol Gymuned Bodffordd.

Cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned - Rwyf yn Gynghorydd Tref ar Gyngor Tref Llangefni ac rwyf hefyd wedi cymryd y prif gyfrifoldeb ymysg tri Chynghorydd Canolbarth Môn am fynychu Cyngor Cymuned Bodffordd. Rwyf hefyd ar brydiau yn mynychu cyfarfodydd o Gyngor Cymuned Gwalchmai, Bryngwran a Llanddyfnan. Rwyf yn aelod o Fenter Gymdeithasol Llangefni a byddaf yn cael cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gydag uwch gynrychiolwyr Cymunedau'n Gyntaf Môn.

Yn ogystal â mynychu amrywiol gyfarfodydd, mae gennyf lwyth gwaith sylweddol wrth i mi geisio gwneud gwaith ar ran etholwyr. Rhai esiamplau o'r mathau o achosion y byddaf yn delio yn rheolaidd â hwy yw:

- Priffyrdd - cwynion am dyllau, llifogydd, peryglon ffyrdd ac ati
- Tai – cwynion am drwsio a chynnal a chadw.
- Tai - Cwynion am Bolisi Gosod.
- Tai – torri gwair.
- Gwasanaethau Cymdeithasol – dosbarthu bathodynnau glas i'r anabl.
- Cynllunio – Gwrthwynebiadau i geisiadau.
- Rheoli Gwastraff – casglu biniau.

Er mwyn i mi fod ar gael i fy etholwyr rwyf wedi creu fy nhudalen Facebook fy hun. Ynghyd â fy nau Gyd-gynghorydd Canolbarth Môn rwyf hefyd wedi dechrau cynnal cymorthfeydd yng Nghanolfan Tref Llangefni.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fy nod yn gyffredinol fel Cynghorydd yw, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, gwneud gwahaniaeth er budd y gymuned. Mae rhai o'r gweithgareddau arbennig yr wyf wedi bod ynglŷn â hwy yn cynnwys:

Cefnogi Menter Gymdeithasol Llangefni sydd yn helpu i adfywio'r dref drwy roi bywyd newydd yn y farchnad.
Cadeirio cyfarfod cyhoeddus yr oeddwn wedi helpu i'w trefnu i drafod cais cynllunio cynhennus mewn perthynas â datblygiad tai mawr arfaethedig yn Ty'n Coed, Llangefni.
Cydlynu cyfarfod cyhoeddus ym Modffordd i drafod problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol.
Mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ynglŷn â phryderon ynglŷn â thoriadau cyllideb i Fudiad Ysgolion Meithrin ym Môn.
Yn dilyn cais gan yr artist preswyl gyda Theatr Genedlaethol Cymru oedd ar daith, llwyddais i gael y caniatâd angenrheidiol iddo gael cymorth ieuenctid lleol i ail-beintio parc sglefrio Llangefni.

**Dysgu a Datblygu**

Rwyf yn awyddus i ddatblygu fy sgiliau a fy ngwybodaeth fel Cynghorydd a dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi cwblhau'r cyrsiau canlynol:

| **Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan CSYM):** | |
|---|---|
| Cyflwyniad i Gefnogi Aelod | Mai 2013 |
| Fframwaith Moesegol | Mai 2013 |
| Cymraeg Iaith / Diogelu Data / Y Wasg a'r Cyfryngau | Mai 2013 |
| Hyfforddiant Cofrestr Diddordebau | Mai 2013 |
| Hyfforddiant Trosolwg Sgriwtini | Mehefin 2013 |
| Cyfarfod Cynllunio Corfforaethol | Mehefin 2013 |
| Gwneud Mwy o Wahaniaeth mewn Sgriwtini | Mehefin 2013 |
| Cynnal Adolygiad Sgriwtini | Gorffennaf 2013 |
| Sgriwtini Data Perfformiad | Gorffennaf 2013 |
| Gwneud i Gyfryngau Cymdeithasol Weithio i Gynghorwyr | Medi 2013 |
| Hyfforddiant Pwyllgor Gwaith Cysgodol | Medi 2013 |
| Adolygu Datblygiad Personol | Hydref 2013 |
| Sgriwtineiddio'r Gyllideb | Hydref 2013 |
| Hyfforddiant PINS | Tachwedd 2013 |
| PRINCE 2 – Hyfforddiant Aelodau Bwrdd | Rhagfyr 2013 |

**Gweithgareddau a Materion Eraill**

Fel y gallaf wasanaethu fy nghymuned leol yn y ffordd orau rwy'n cydnabod y bydd yn rhaid i mi ymgysylltu cymaint ag sy'n bosibl yn y gymuned. O ganlyniad rwyf wedi mynychu yn rheolaidd wahanol ddigwyddiadau ymgynghori, diwylliannol, cymdeithasol, cymunedol fel e.e.
**Digwyddiadau diwylliannol** – Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Bodffordd, Theatr Fach, arddangosfeydd yn Oriel Ynys Môn, Arddangosfa Heneiddio'n Dda Llangefni, Sioe Gerdd Alleni Môn ym Miwmares, Stiwdios Agored Ynys Môn, agor Llwybr Daeareg Amlwch.
**Digwyddiadau Cymdeithasol a Chymunedol** - Carnifal Llangefni, Nosweithiau Cwis Talwrn, Parc Ffrindiau Pandy - Cinio Mawr, Gem Bêl-droed Elusennol Llangefni v Gwalchmai, Diwrnod Hwyl Bryngwran, Agor Gorsaf Heddlu newydd yn Llangefni, cyngherddau Nadolig yn Ysgol y Bont, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Gymuned Bodffordd, Gwobrau Ieuenctid Ynys Môn, 'Go Dad Run' a do, fe wnes i redeg y 5K!
**Digwyddiadau ymgynghori** – Horizon Nuclear Power, Celtic Array (Fferm Wynt Rhiannon), Ffydd ar Waith (yn cael ei gynnal gan yr Eglwys Gatholig), Canolfan Gymunedol Tudur, Astudiaeth Canol Tref Llangefni.

**Y Cynghorydd Dylan Rees** **Ebrill 2014**